Odynau calch y Mynydd Du

Mae yna dri math gwahanol o odynau i'w cael yn chwareli'r Mynydd Du.

Odyn Dros Dro oedd y math cynharaf o odyn yn y chwareli. Dim ond unwaith y gallai gael ei defnyddio. Roedd y tanwydd yn cael ei roi mewn ffos wedi'i chloddio. Yna byddai'r tanwydd yn cael ei orchuddio â chalchfaen a'i gynnau. Wedyn, byddai clai a mawn yn cael eu rhoi drosto. Wedi iddo orffen llosgi, byddai'n cael ei gloddio allan, gan adael siâp pedol ceffyl ar ei ôl.



Roedd yr Odyn Fflach yn adeiladwaith mwy, wedi'i wneud o garreg. Roedd y tanwydd yn cael ei osod ar wahân i'r calchfaen. Roedd yr odynau hyn yn cynhyrchu calch glân (heb fod yn gymysg â glo) ond roedd yn rhaid datgysylltu peth ar yr odyn er mwyn tynnu'r

Mewn Odynau Tynnu, roedd y tanwydd a'r calchfaen yn cael eu cymysgu mewn haenau. Roedd yr odynau hyn wedi'u cynllunio i gael eu defnyddio'n gyson (yn dymhorol). Roedden nhw'n cael eu hadeiladu o garreg a'u gosod yn erbyn llethr naturiol fel arfer, gyda'r twll llenwi (ar dop yr odyn) ar yr un lefel â llawr y chwarel. Cafodd odynau o'r math yma eu cyflwyno yn ne Cymru tua 1775. Roedden nhw'n dal i gael eu codi yn yr 20fed ganrif ac roedd rhai'n cael eu defnyddio hyd at yr 1970au.



Cronfa Datblygu Cynaliadwy Sustainable Development Fund
Canolfan y Mynydd Du Black Mountain Centre
ymddiriedolaeth archaeolegol DYFED archaeological trust
Amgueddfa Genedlaethol y Glannau
National Waterfront Museum